

ELWYN-EDWARDS, DILYS (1918-2012), cyfansoddwraig

Enw: Dilys Elwyn-edwards
Dyddiad geni: 1918
Dyddiad marw: 2012
Rhyw: Benyw
Galwedigaeth: cyfansoddwraig
Maes gweithgaredd: Cerddoriaeth
Awdur: Rhidian Griffiths

Ganed Dilys Roberts ar 19 Awst 1918 yn Nolgellau. Roedd ei thad yn gerddor, yn godwr canu ac yn arweinydd corau, a hefyd yn canu'r iwffoniwm. Mynychodd Ysgol Dr Williams yn Nolgellau a manteisio ar draddodiad cerddorol cryf yr ysgol; yno y dechreuodd ymserchu yng ngherddoriaeth Delius, Holst a Vaughan Williams, ac yno hefyd y cyfansoddodd ei gân gyntaf. Cafodd gynniig Ysgoloriaeth Turle yng Ngholeg Girtton yng Nghaergrawnt ac Ysgoloriaeth Joseph Parry yng Ngholeg y Brifysgol yng Nghaerdydd, a dewisodd yr ail, gan astudio dan **David Evans**. Yng Nghaerdydd datblygodd ei dawn gyfansoddi a darlledwyd rhai o'i chaneuon gan y BBC. Wedi graddio'n B.Mus. bu'n dysgu yn Ysgol Dr Williams am dair blynedd cyn ennill ysgoloriaeth agored mewn cyfansoddi i'r Coleg Cerdd Brenhinol yn Llundain, i astudio cyfansoddi gyda Herbert Howells a'r piano gyda Kathleen McQuitty.

Priododd ag Elwyn Edwards 3 Medi 1947 a byw yn Rhydychen; tra oedd ef yn astudio yng Ngholeg Mansfield parhâ hi i ddysgu cerddoriaeth mewn ysgolion. Symudasant yn ôl i Gymru pan ddaeth ef yn weinidog ar Eglwys Bresbyteriaidd Castle Square yng Nghaernarfon. O 1973 ymlaen bu Dilys Elwyn-Edwards yn diwtor piano yn y Coleg Normal ac yng Ngholeg y Brifysgol ym Mangor. Beirniadau'n gyson mewn eisteddfodau ac ymddangos ar radio a theledu.

Er iddi gyfansoddi peth cerddoriaeth offerynnol ei phrif hoffter oedd cyfansoddi i'r llais. Ymddiddorai'n fawr mewn barddoniaeth a chydabyddai ei hedmygedd o'r cyfansoddwr Seisnig Peter Warlock, a oedd yntau'n adnabyddus am ei ganeuon. Mae ei gosodiadau yn greffus, yn sensitif ac yn delynegol, ac yn perthyn i brif ffrwd y gân gelf yn Nghymru ac ym Mhrydain. Mae ganddi sawl cylch o ganeuon, megis Caneuon y Tri Aderyn (a gomisiynwyd gan y BBC yn 1961, ac sy'n cynnwys ei gân fwyaf adnabyddus, 'Mae hiraeth yn y môr'), Chwe Chân i Blant, Tymhorau a Hwiangerddi. Ceir ganddi hefyd osodiadau corawl o rai o'r Salmu. Mae rhai o'i chaneuon a rhanganau cynnar yn osodiadau o farddoniaeth Saesneg (gyda chyfieithiadau Cymraeg), megis 'Sweet Suffolk Owl', a 'The Bird of Christ', ond troes yn ddiweddarach i osod geiriau gwreiddiol gan feirdd o Gymry megis **R. Williams Parry**.

Bu farw 13 Ionawr 2012 mewn cartref nyrsio yn Llanberis.

Awdur

Rhidian Griffiths

Ffynonellau

Cerddoriaeth Cymru 6/4 (1980)

Darllen Pellach

Dilys Elwyn-Edwards (1918-2012), gwefan Tŷ Cerdd, gwelwyd 7 Mawrth 2018

Geraint Lewis, 'Elwyn-Edwards, Dilys (1918-2012)', *Cydymaith i Gerddoriaeth Cymru* (Talybont 2018), tt.163-4

Erthygl Wicipedia: Dilys Elwyn-Edwards

Dolenni Ychwanegol

Archifau LIGC: Archif Gerddorol Dilys Elwyn-Edwards

VIAF: 75955654

Wikidata: Q5277110

Dyddiad cyhoeddi: 2014-08-14

Hawffraint Erthygl: <https://creativecommons.org/licenses/by-sa/4.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfeyrdiaid Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Griffiths, R., (2014). ELWYN-EDWARDS, DILYS (1918-2012), cyfansoddwraig. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c10-ELWY-DIL-1918>

Preifatrwydd a Chwciis
Hawffraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Yn ddiwedd
Llywodraeth Cymru
Supported by
Welsh Government